# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 2

AWDURDOD CYLLID CYMRU

*Aelodaeth*

### 3 Aelodaeth

(1) Aelodau ACC yw—

(a) cadeirydd a benodir gan Weinidogion Cymru,

(b) dim llai na 4, na dim mwy nag 8, o bersonau eraill a benodir gan Weinidogion Cymru,

(c) y prif weithredwr (gweler adran 9),

(d) naill ai 1 neu 2 aelod arall o staff ACC a benodir gan y prif weithredwr, ac

(e) 1 aelod arall o staff ACC a benodir o dan adran 6.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un o’r aelodau a benodir o dan is-adran (1)(b) yn is-gadeirydd.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau er mwyn rhoi nifer gwahanol yn lle unrhyw un neu ragor o’r niferoedd a bennir ynddi am y tro; ond rhaid i’r rheoliadau sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn parhau i fod yn uwch na nifer yr aelodau gweithredol.

(4) Yn y Rhan hon—

(a) cyfeirir ar y cyd at gadeirydd ac at aelodau o ACC a benodir o dan is-adran (1)(b) fel “aelodau anweithredol”;

(b) cyfeirir ar y cyd at y prif weithredwr ac at aelodau o ACC a benodir o dan is-adran (1)(d) neu o dan adran 6 fel “aelodau gweithredol”;

(c) cyfeirir at yr aelod o ACC a benodir o dan adran 6 fel "aelod gweithredol etholedig".

**4 Anghymhwyso rhag penodiad fel aelod anweithredol**

Mae person wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi yn aelod anweithredol o ACC os yw'r person—

(a) yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

(b) yn aelod o Dŷ'r Cyffredin, o Dŷ'r Arglwyddi, o Senedd yr Alban neu o Gynulliad Gogledd Iwerddon,

(c) yn aelod o Senedd Ewrop,

(d) yn aelod o awdurdod lleol,

(e) yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol,

(f) yn aelod o Lywodraeth Cymru,

(g) yn un o Weinidogion y Goron, yn aelod o Lywodraeth yr Alban neu'n un o Weinidogion Gogledd Iwerddon,

(h) yn gomisiynydd heddlu a throseddu,

(i) yn berson sy'n dal swydd o dan y Goron,

(j) yn berson sydd wedi ei gyflogi gan wasanaeth sifil y Wladwriaeth, neu

(k) yn deiliad swydd, neu'n aelod neu'n aelod o staff corff, a ragnodwyd drwy reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

**5 Telerau aelodaeth anweithredol**

(1) Mae aelod anweithredol o ACC yn dal swydd fel aelod am unrhyw gyfnod ac ar unrhyw delerau a bennir yn nhelerau penodiad yr aelod (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 7).

(2) Ni chaiff y cyfnod yn y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 5 mlynedd.

(3) Mae aelod anweithredol o ACC a benodir yn is-gadeirydd yn dal swydd fel is-gadeirydd am unrhyw gyfnod ac ar unrhyw delerau a bennir yn nhelerau penodiad y person yn is-gadeirydd (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 7).

(4) Caiff person ymddiswyddo fel aelod anweithredol o ACC, neu fel is-gadeirydd ACC, drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(5) Caniateir ailbenodi person sy'n aelod anweithredol o ACC neu sydd wedi bod yn aelod anweithredol o ACC yn aelod anweithredol unwaith yn unig.

(6) Caniateir ailbenodi person sy'n is-gadeirydd ACC neu sydd wedi bod yn is-gadeirydd ACC yn is-gadeirydd.

(7) Caiff ACC dalu i'w aelodau anweithredol—

(a) unrhyw dâl a bennir gan ACC, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a

(b) unrhyw symiau a bennir gan ACC, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, i ad-dalu'r treuliau yr aethant iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau.

**6 Penodi aelod gweithredol etholedig**

(1) Rhaid i ACC gynnal pleidlais gudd ymhlith ei staff at ddiben penodi aelod o staff yn aelod gweithredol etholedig o ACC.

(2) Rhaid i aelodau anweithredol ACC—
(a) penodi enillydd y bleidlais gudd yn aelod gweithredol etholedig o ACC, a
(b) pennu telerau penodiad y person hwnnw.

(3) Mae aelod gweithredol etholedig o ACC yn gwasanaethu fel aelod am ba bynnag gyfnod ac ar ba bynnag delerau a bennir yn nhelerau penodiad yr aelod (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 7).

(4) Caiff aelod gweithredol etholedig o ACC ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i aelodau anweithredol ACC.

**7 Diswyddo aelodau etc.**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo person fel aelod anweithredol o ACC drwy roi hysbysiad—
(a) os daw'r person yn anghymwys i'w benodi yn aelod anweithredol yn rhinwedd adran 4,
(b) os yw'r person wedi bod yn absennol o gyfarfodydd ACC am gyfnod hwy na 6 mis heb ganiatâd ACC, neu
(c) os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r person yn addas i fod yn aelod neu nad yw'r person yn gallu neu'n fodlon cyflawni ei swyddogaethau fel aelod.

(2) Caiff aelodau anweithredol ACC ddiswyddo person fel aelod gweithredol etholedig o ACC drwy roi hysbysiad—
(a) os yw'r person wedi bod yn absennol o gyfarfodydd ACC am gyfnod hwy na 6 mis heb ganiatâd ACC, neu
(b) os yw aelodau anweithredol ACC o'r farn nad yw'r person yn addas i fod yn aelod neu nad yw'r person yn gallu neu'n fodlon cyflawni ei swyddogaethau fel aelod.

(3) Mae person yn peidio â bod yn is-gadeirydd ACC pan fydd yn peidio â bod yn aelod anweithredol.

(4) Mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol o ACC os daw'r person yn aelod o staff ACC.

(5) Mae person yn peidio â bod yn aelod gweithredol o ACC pan fydd yn peidio â bod yn brif weithredwr neu'n aelod arall o staff ACC.